YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MISS CATRIN EVANS BSc (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
01656 815700
www.yggllangynwyd.cymru
YGGLlangynwyd
@YGGLLANGYNWYD

**Trefniadau Canlyniadau TGAU / Uwch Gyfrannol / Uwch 2025**

2ail Gorffennaf 2025

Annwyl fyfyrwyr, rhieni a gwarcheidwaid,

Hoffwn rannu gyda chi ein trefniadau ar gyfer dosbarthu canlyniadau ar gyfer Blwyddyn 10 – 13 eleni.

<u>Blwyddyn 10.</u>
Bydd eich canlyniadau yn cael eu rhyddhau am 10yb ar y 21ain o Awst. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu trwy eich cyfrifon HWB*, os nad ydych wedi eu derbyn erbyn 10.30yb bydd angen i chi gysylltu gyda'r ysgol. Bydd staff yn ymateb i alwadau ffon yn y brif swyddfa tan 12yh, wedi hynny ni fydd modd ymateb i ymholiadau tan y 1af o Fedi. Bydd cyfle i chi drafod eich canlyniadau wrth i chi ddychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Mercher y 3ydd o Fedi.

<u>Blwyddyn 11.</u>
Bydd modd dod i gasglu eich canlyniadau rhwng 8.30yb a 10:30yb ar y 21ain o Awst yn neuadd yr ysgol. Wrth gasglu eich canlyniadau byddwch yn siarad gydag aelod o staff yr ysgol er mwyn trafod eich cyrchfan nesaf, boed eich bod am gadarnhau eich pynciau ar gyfer dychwelyd i'r chweched yn Llangynwyd neu os eich bod am fynd i'r Coleg neu ddilyn y trywydd i dderbyn prentisiaeth neu swydd. Bydd Swyddog Gyrfa Cymru ynghyd a swyddogion adran gyflogaeth y sir hefyd ar gael i ddarparu cyngor a chefnogaeth yn ôl yr angen. Os nad eich bod yn dod i'r ysgol i gasglu eich canlyniadau a fyddech cystal â'n hysbysu ni yn y ffurf arferol i roi gwybod. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau am 10yb ar y 21ain o Awst drwy eich cyfrifon HWB, os nad ydych wedi eu derbyn erbyn 10.30yb bydd angen i chi gysylltu gyda'r ysgol. Bydd staff yn ymateb i alwadau ffon yn y brif swyddfa tan 12yh, wedi hynny ni fydd modd ymateb i ymholiadau tan y 1af o Fedi. Bydd angen i chi gwblhau'r Microsoft Form y bydd ar yr e-bost er mwyn nodi eich cyrchfan gan ei fod yn statudol i'r ysgol nodi beth yw eich trywydd dysgu/gyrfaol hyd eich bod yn 25 mlwydd oed. Os yn dychwelyd i chweched yr ysgol eich diwrnod cyntaf yw Dydd Iau 4ydd o Fedi.

<u>Blwyddyn 12.</u>
Bydd modd dod i gasglu eich canlyniadau rhwng 9.30yb a 10.30yb ar yr 14eg o Awst yn neuadd yr ysgol. Wrth gasglu eich canlyniadau byddwch yn siarad gydag aelod o staff yr ysgol er mwyn trafod eich llwybr dysgu, i gadarnhau trefniadau ar gyfer dychwelyd i Flwyddyn 13. Os nad eich bod yn dod i'r ysgol i gasglu eich canlyniadau a fyddech cystal â'n hysbysu ni yn y ffurf arferol i roi gwybod. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau 10yb ar yr 14eg o Awst drwy eich cyfrifon HWB*, os nad ydych wedi eu derbyn erbyn 10.30yb bydd angen i chi gysylltu gyda'r ysgol. Bydd staff yn ymateb i alwadau ffon yn y brif swyddfa tan 12yh, wedi hynny ni fydd modd ymateb i ymholiadau tan y 1af o Fedi. Bydd angen i chi gwblhau'r Microsoft Form y bydd ar yr e-bost er mwyn nodi eich cyrchfan gan ei fod yn statudol i'r ysgol nodi beth yw eich trywydd dysgu/gyrfaol hyd eich bod yn 25 mlwydd oed. Eich diwrnod cyntaf chi fel Blwyddyn 13 yw Dydd Gwener 5ed o Fedi.

<u>Blwyddyn 13.</u>
Bydd modd dod i gasglu eich canlyniadau o 8.30yb ar yr 14eg o Awst yn neuadd yr ysgol. Wrth gasglu eich canlyniadau byddwch yn siarad gydag aelod o staff er mwyn i chi gadarnhau eich llwybr ôl-18. Os nad eich bod yn dod i'r ysgol i gasglu eich canlyniadau a fyddech cystal â'n hysbysu ni yn y ffurf arferol i roi gwybod. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau 10yb ar yr 14eg o Awst drwy eich cyfrifon HWB* os nad ydych wedi eu derbyn erbyn 10.30yb bydd angen i chi gysylltu gyda'r ysgol. Bydd staff yn ymateb i alwadau ffon yn y brif swyddfa tan 12yh, wedi hynny ni fydd modd ymateb i ymholiadau tan y 1af o Fedi. Bydd angen i chi gwblhau'r Microsoft Form y bydd ar yr bost er mwyn i chi nodi eich cyrchfan gan ei fod yn statudol i ni nodi beth yw eich trywydd hyd eich bod yn 25 mlwydd oed.

**YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD**
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MISS CATRIN EVANS BSc (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
01656 815700
www.yggllangynwyd.cymru
YGGLlangynwyd
@YGGLLANGYNWYD

Os eich bod yn gadael addysg bydd eich cyfrifon HWB yn dirwyn i ben ym mis Medi felly gofynnwn yn garedig i chi dynnu unrhyw wybodaeth rydych eich angen oddi ar y cyfrif gan y bydd y wybodaeth yn cael ei ddileu gan HWB.

Cofiwch hefyd fod yr ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaeth 'SHINE' sydd ar gael 24 awr y diwrnod trwy lawrlwytho'r 'app' sy'n cynnig cymorth i'r rhai sy'n bryderus am y canlyniadau.

*Er mwyn cael mynediad i'r cyfrif HWB ewch i mail.office365.com - defnyddiwch eich e-bost a chyfrinair HWB.

Pob dymuniad da i chi dros yr haf.
Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

I Jones

Iwan Jones
Pennaeth Cynorthwyol
Lles a Chynhwysiant

Catrin Evans
Prifathro